Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

SC(3)-06-09 (p.4): 19 Mawrth 2009

Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Lifogydd: Cylch gorchwyl drafft

Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd Aelodau i ystyried y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad craffu'r pwyllgor i lifogydd.

Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2009, ystyriodd y pwyllgor bapur cwmpasu ar lifogydd a chytunodd i ystyried llifogydd fel pwnc ei ymchwiliad craffu nesaf.

3. Cynigir y cylch gorchwyl a ganlyn, sy'n canolbwyntio ar ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ar gyfer yr ymchwiliad:

I edrych ar effeithiau llifogydd ar unigolion, cymunedau a busnesau yng Nghymru a'r mecanweithiau sy'n bodoli cyn, yn ystod ac yn dilyn achos o lifogydd i'w helpu.

I wneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw gyrff addas eraill.

Bydd yr ymchwiliad yn cwmpasu:

graddau presennol y llifogydd a'r risg o lifogydd yng Nghymru a'r bygythiadau posibl o lifogydd yn y dyfodol gan ddefnyddio amrywiaeth o sefyllfaoedd newid yn yr hinsawdd;

effeithiau'r achosion diweddar o lifogydd ar unigolion a chymunedau a'u safbwyntiau ynghylch risgiau'r bygythiad o lifogydd a'r ymateb iddo;

effeithiolrwydd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 (Datblygu a Pherygl o Lifogydd);

ymateb y diwydiant yswiriant i eiddo a thir y mae risg y byddant yn wynebu perygl o lifogydd a chyfnodau o lifogydd;

yr ymateb i achosion o lifogydd, gan ganolbwyntio ar rolau a chyfrifoldebau yn ystod ac yn dilyn yr achosion hynny;

effeithiolrwydd Cynlluniau Gweithredu Strategaeth Amgylcheddol 2006-2008 a chamau gweithredu i atal llifogydd 2008-2011.

Argymhelliad

4. Gwahoddir yr Aelodau i dderbyn y cylch gorchwyl ar gyfer eu hymchwiliad i lifogydd.